# Aberdâr

**Pellter:** 2.66 milltir
**Anhawster:** Hawdd
**Amser cerdded:** 1.5 awr

Cwbl addas i gadeiriau olwyn, sgwteri a bygis

Mae toiledau cyhoeddus ar y llwybr hwn ym Mharc Aberdâr, ynghyd â llawer o opsiynau o ran lluniaeth ar hyd y strydoedd lleol yng nghanol y dref

Mae'r llwybr hwn yn dro hawdd drwy ganol tref Aberdâr hyd at ardal hyfryd Parc Aberdâr. Mae llawer o fannau chwarae i blant yn y parc ynghyd â digonedd o fywyd gwyllt a phwll prydferth. Ar y ffordd, mae ychydig o lefydd lle bydd angen i chi groesi'n ôl ac ymlaen i sicrhau eich bod yn defnyddio'r opsiynau gorau o ran hygyrchedd. Mae modd cerdded i Barc Gwledig Cwm Dâr hefyd.


1. Wrth i chi gyrraedd Aberdâr, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i ddiwedd y platfform i fynd ar hyd y ramp a fydd yn eich arwain i lawr i'r ffordd. Defnyddiwch y man croesi dros y ffordd a mynd ar y bont i fyny a thros y ffordd. Ar ôl i chi ddod oddi ar y bont, ewch i'r dde ar Stryd y Dug ac yna cymerwch y troad nesaf i'r chwith i ymuno â Commercial Street, sef man cychwyn prif ardal siopa'r dref.

2. Ewch i ben y stryd hon a gyferbyn â'r eglwys, ewch i'r dde ar hyd Stryd y Canon. Dilynwch y ffordd hon nes iddi gyrraedd croesffordd, lle mae Llyfrgell Aberdâr dros y ffordd i chi, yn ogystal â man agored gyda rhywfaint o gaffis. Defnyddiwch y mannau croesi hygyrch yma i groesi i ochr y llyfrgell o'r ffordd ac yna ewch i'r dde ar hyd y Stryd Fawr sy'n eich arwain o gwmpas tuag at gylchfan.

3. Croeswch yn syth ar draws y gylchfan i ymuno â Heol Gadlys. Ychydig i fyny'r ffordd, defnyddiwch y groesfan sebra i sicrhau bod cyrbiau is sy'n fwy hygyrch. Ewch ymlaen i fyny'r ffordd ac wrth archfarchnad Lidl, croeswch y ffordd eto gan ddefnyddio'r opsiynau hygyrch gorau. Daliwch i fynd ymlaen i fyny'r ffordd a chyn bo hir bydd y fynedfa i Barc Aberdâr ar draws y ffordd.

4. Ar ôl i chi fynd i mewn i'r parc, mae gennych chi opsiynau. Mae llwybr llydan braf sy'n mynd â chi ar gylchdaith o'r parc, neu gallwch fynd yn syth at y pwll, y caffi a'r toiledau. Cymerwch eich amser yma i fwynhau popeth sydd gan y parc hwn i'w gynnig.

5. Pan fyddwch chi'n barod i fynd yn ôl i'r orsaf, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn yr un llwybr yn ôl. Treuliwch amser yn mwynhau'r siopau a'r caffis yng nghanol tref Aberdâr.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023

Os ydych chi eisiau crwydro ymhellach na Pharc Aberdâr, mae mynediad da i Barc Gwledig Cwm Dâr o'r orsaf drenau. Wrth i chi ddod i lawr y ramp, cadwch lygad am arwyddion sy'n eich arwain yr holl ffordd allan i'r Parc.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.